**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth 18 Mawrth 2025**

**Yn bresennol:** Cyng. Einir Thomas – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, William Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson a Gareth Thomas.
**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / SAC a Ken Taylor – Cynghorydd Sir. .

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Celfyn Furlong, Gordon Owen a Dyfed Williams.

**2. Datganiad o Fuddiannau** – datganiadau o fuddiannau personol:
Cyng. Gwilym O. Jones eitem 4.2 Y Neuadd ac eitem 6.1 - rhoddion i'r Rhwyd.
Cyng. K. Taylor - materion cynllunio oherwydd ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.
Cyng. Sharon Parry - eitem 6.1 – rhoddion i MônFM a Hosbis Dewi Sant.

**3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 18 Chwefror 2025 fel rhai cywir (prop. Cyng. E. W. Robertson, eilio Cyng. G.O. Jones)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Cyng. Einir Thomas yn adrodd fod y ceffyl siglo wedi ei fandaleiddio – roedd y rociwr yn gyfan ond roedd y pen wedi'i ddifrodi. Roedd hi wedi hel y malurion a sicrhau nad oedd ymylon miniog i achosi anaf.
Cytunwyd i dderbyn dyfynbris o £100 y toriad gan Shaun Wharton ar gyfer torri a strimio'r cae chwarae a £160 i gael gwared ar y sied, torri'r eiddew yn ôl a chael gwared ar yr holl falurion o'r ardal chwarae.

4.2 Neuadd Bentref:
1) Cafwyd £3,000 gan yr Yswirwyr am gael gwared â coed a ddifrodwyd gan y storm ac i atgyweirio'r ffin a'r ffens.
2) Bydd Môn Fire yn dechrau'r gwaith ar y system Larwm Tân ar 7fed o Ebrill.
3) Cafwyd addewid fod R.G. Hire yn bwriadu gwneud y gwaith o osod y bibell ddŵr newydd ar 24ain o Fawrth.
4) Roedd Shaun Wharton am dorri'r llwyn wrth gefn y capel ond roedd yr Aelodau eisiau gweld yr ardd cyn penderfynu ar unrhyw waith pellach yno.

Cytunwyd y byddai'r clerc yn prynu pecyn cymorth cyntaf, rhai deunyddiau glanhau a photiau 'matchpots' i dacluso'r gwaith paent presennol.
Byddai hefyd yn cynhyrchu Polisi Cyfle Cyfartal a Pholisi Diogelu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

4.3 Defibriliwr Caergeiliog – Roedd CSYM wedi casglu'r blwch i ddal yr offer a, byddai'r defibriliwr yn cael ei osod unwaith fod hwnnw yn ei le. Cafwyd cynnig gan Cyng. Furlong i drefnu hyfforddiant ar y 6 Mai ar sut i'w ddefnyddio ond mynegwyd pryder y byddai'n cael ei gynnal yn rhy gynnar yn y dydd i'r rhan fwyaf o bobl. Gofynnwyd i'r clerc drefnu gyda CSYM i gael torri'r brigau oedd yn hongian yn isel dros y postyn.

4.4 Unrhyw fater arall sy'n deillio o'r cofnodion:
Roedd y llinellau gwyn yn dal angen sylw ar yr A5 yng Nghaergeiliog.

## 5. Cynllunio

5.1 **LUE/2025/11 ym Mharc Carafanau Traeth Trewan, Bryngwran**
Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol o'r tir fel safle tymhorol ar gyfer carafanau teithiol, pebyll, a chartref i fodur ers dros 10 mlynedd – Dim arsylwadau heblaw am yr angen i wirio a oedd y safle ar dir comin.

5.2 **VAR/2025/11 Tir yn Zealand Park, Caergeiliog**
Cais o dan Adran 73 i amrywio amod (09) (mesurau ar gyfer cynnal a chadw'r ffordd mynediad ac ystad yn y dyfodol) o ganiatâd cynllunio cyfeirnod FPL/2023/68 (Cais llawn i godi 8 tý fforddiadwy, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig) er mwyn caniatáu cyflwyno'r manylion cyn meddiannu'r annedd/anheddau - nodwyd ei bod yn well cadw'r cyflwr fel bu problemau hanesyddol difrifol ynglŷn â'r ffordd fynediad trwy Barc Seland tuag at y datblygiad.

5.3 **VAR/2025/14 Llain Bont, Llanfair yn Neubwll**
Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amod (02)(Cynlluniau a gymeradwy), (04)(Oriau agor) a (07)(Deunydd wyneb fynedfa) o caniatâd cynllunio rhif FPL/2023/221 (newid defnydd tir amaethyddol i fewn i gyfleuster ymarfer cŵn ) er mwyn diwygio'r gosodiad safle, ymestyn oriau agored, a newid deunydd wyneb y fynedfa - dim gwrthwynebiad.

## 6. Materion Ariannol

Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 1.2.2025 a 28.2. 2025 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif Cyfredol £33048.19, Cyfrif Adnau £4081.97.

Byddai'r clerc yn paratoi'r cyfrifon terfynol ar gyfer yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y byddai'r clerc yn gofyn i glerc cymwys o gyngor cymuned arall a fyddai'n barod i archwilio cyfrifon 2024/25 ond os na, byddai'r Cyngor yn gofyn i'r archwilydd blaenorol os oedd o ar gael eto eleni.
Cytunwyd i gynnwys Cyng. Evan Wyn Robertson a Gareth Thomas ar y Mandad Banc ar gyfer bancio ar-lein.

6.1 Rhoddion - cytunwyd i wneud taliadau fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Y Rhwyd | 150 | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a. 145 |
| 2. | Hosbis Dewi Sant | 100 | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.137 |
| 3. | Ambiwlans Awyr Cymru | 100 | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.137 |
| 4. | MônFM | 100 | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a. 145 |
| 5. | Eisteddfod yr Urdd | 500 | Deddf Llywodraeth Leol 1972, a. 145 |

6.2 Lwfans Aelodau - Atgoffwyd Aelodau y byddai'n rhaid iddynt gadarnhau'n ysgrifenedig eu bod yn gweithio gartref ar ddyletswyddau swyddogol fel Cynghorydd ac nad ydynt eisoes yn hawlio lwfans treth ar gyfer costau gweithio gartref yn erbyn ffynhonnell incwm arall cyn derbyn taliad di-dreth. Dylai unrhyw un nad oedd am dderbyn y lwfans anfon

cadarnhad ysgrifenedig ymlaen at y clerc.

6.3 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd arno.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Chwefror.) | £353.07 | Un Llais Cymru | £316 |
| Mewngofnodi | £137 | Lwfans Aelodau | £208 |
| Tân Môn | £55.20 | | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc /SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

**7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

7.1 Hyfforddiant Un Llais Cymru

7.2 Penderfyniadau Terfynol Adolygiad y Senedd

7.3 Ymchwiliad i rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned

7.4 Canllawiau drafft ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig

7.5 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol 2025

7.6 Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – 6.30 pm 19.5.2025.

**8 Adroddiadau Aelodau**

8.1 Cyng. Sharon Parry:
Adroddwyd bod preswylydd wedi cwyno wrthi am y sŵn sy'n deillio o Ddepo Evri yng Nghaergeiliog – nodwyd bod rhaid i'r gwasanaeth dosbarthu dechrau yn gynnar yn y bore i sicrhau danfoniadau amserol.

8.2 Cyng. Wyn Robertson:
Gofynnodd pam bod angen am system archebu ar gyfer y safle ailgylchu yng Ngwalchmai – dywedwyd bod hyn wedi'i rhoi mewn lle yn dilyn cwynion gan Heddlu Gogledd Cymru bod cerbydau yn ciwio'n bell yn ôl ac yn rhwystro'r A5.

8.3 Cyng. Sian Jones:
Gofynnodd am gael symud y 20mya i y tu hwnt i'r fynedfa i'r datblygiad newydd ar Ffordd Minffordd – byddai'r clerc yn holi am hyn.

8.4 Cyng. Victor Owen:
Gan gyfeirio'n ôl at eitem 7.4 ynglŷn ag amrywiaeth a chynhwysiant, dywedodd y dylai'r Cyngor a'i Aelodau fod yn falch o'r ffordd yr oeddent yn gweithio gyda'i gilydd, roedd pawb yn gwneud eu gorau. Nododd y Clerc fod y Cyngor yn cael ei gynrychioli'n dda gydag Aelodau gwrywaidd a benywaidd o ystod oedran eang, roedd rhai yn fwy abl yn gorfforol nag eraill ond roedd eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiadau ar y cyd yn ategu ei gilydd Cytunwyd fod gan bawb ei werth.

## 9. Cyfarfod nesaf - 15 Ebrill 2025

: